Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 9 Tachwedd 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P O'Connor (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | D W Helliwell |
| P R Hood-Williams | O G James | M B Lewis |
| S Pritchard | J A Raynor | L V Walton |
| T M White | | |

**Aelod Lleyg**
Julie Davies

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Nick Davies | Archwiliwr |
| Marlyn Dickson | Strategic Change Programme Manager |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeff Fish | Corporate Fraud Team Investigator |
| Lucy Friday | Prif Swyddog - Trawsnewid (Gwasanaethau i Oedolion) |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Jonathon Rogers | Corporate Fraud Team Investigator |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Helen St John | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig |

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Jason Garcia | Wales Audit Office |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
C E Lloyd

---

## 43 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr P M Black a T M White gysylltiad personol â Chofnod 47 "Adroddiad Dilynol am Argymhelliad yr Archwiliad Mewnol ar gyfer Chwarter 2 2021/22".

2) Datganodd Julie Davies gysylltiad personol â Chofnod 48 "Adroddiad Olrhain Argymhellion Archwiliadau Hanfodol 2020/21".

## 44 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

## 45 Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2021/21 - Adroddiad Monitro ar gyfer y Cyfnod 1 Gorffennaf 2021 i 30 Medi 2021.. (Er Gwybodaeth) (Simon Cockings)

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr, Nick Davies, adroddiad gwybodaeth a oedd yn manylu ar yr archwiliadau terfynol ac unrhyw waith arall a wnaed gan yr Is-adran Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Gorffennaf i 30 Medi 2021.

Mynegodd y Cadeirydd bryder nad oedd prisiad llawn o'r asedau presennol yn Oriel Gelf Glynn Vivian wedi'i gynnal ers 9 mlynedd.

Dywedodd y Prif Archwilydd fod y mater wedi'i amlygu yn yr adroddiad ac y byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Cadeirydd maes o law. Addawodd y Swyddog Adran 151 hefyd godi'r mater er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

## 46 Ymateb i Adroddiad Archwilio Mewnol y Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol a'r Gwasanaeth Larymau Cymunedol.

Cyflwynodd Helen St John, Pennaeth y Gwasanaethau Cymunedol Integredig a Lucy Friday, Prif Swyddog – Trawsnewid – Gwasanaethau i Oedolion adroddiad gwybodaeth a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac ymateb i archwiliad mewnol 2021/22 o Storfeydd Cyfarpar Cymunedol a'r Gwasanaeth Larwm Cymunedol.

Amlinellodd y Swyddogion y gwaith a wnaed a'r gwaith sydd eto i'w wneud i fynd i'r afael â rheoli asedau'r stoc yn y storfeydd. Byddai'r gwaith yn golygu bod y stoc asedau'n cael ei lleihau'n fawr oherwydd oedran llawer o'r stoc. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gan bob eitem o stoc gôd bar unigol ers 2019.

Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â hyfforddiant, rheoli stoc a rheoli perfformiad.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Is-adran Archwilio Mewnol gynnwys "Adolygiad o'r Trefniadau Rheoli Perfformiad" yn eu hadolygiad dilynol.

Dywedodd y Prif Archwilydd fod y mater wedi'i amlygu ac y byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Cadeirydd maes o law. Addawodd y Swyddog Adran 151 hefyd godi'r pwnc er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

Nododd y Pwyllgor ei fod yn wasanaeth ar y cyd rhwng Cyngor Abertawe, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'r Bwrdd Iechyd. Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o werth y rhaniad ar y cyllid gan y sefydliadau hynny. Cytunodd y Swyddogion i roi adborth ar y wybodaeth honno.

**47 Adroddiad Dilynol Argymhellion Archwiliadau Mewnol - Chwarter 2 2021/22. (Er Gwybodaeth) (Simon Cockings)**

Cyflwynodd Nick Davies, y Prif Archwiliwr, adroddiad gwybodaeth a oedd yn darparu statws yr argymhellion a wnaed yn yr archwiliadau hynny lle'r oedd y gwaith dilynol wedi'i wneud yn Chwarter 2 2021/22, gan ganiatáu i'r Pwyllgor fonitro'r broses o weithredu argymhellion a wnaed gan yr Archwiliad Mewnol.

**48 Adroddiad Olrhain Argymhellion Archwiliadau Hanfodol 2020/21. (Er Gwybodaeth) (Simon Cockings)**

Cyflwynodd Nick Davies, y Prif Archwiliwr, adroddiad gwybodaeth a oedd yn darparu crynodeb o'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr archwiliadau hanfodol yn 2020/21 ac yn nodi a oedd yr argymhellion y cytunwyd arnynt wedi cael eu rhoi ar waith.

O'r 36 o argymhellion, roedd 25 wedi'u gweithredu'n llawn, 3 wedi'u gweithredu'n rhannol, 5 heb eu gweithredu ac nid oedd 3 yn barod i'w gweithredu eto.

**49 Adroddiad Diweddaru Canol Blwyddyn Swyddogaeth Twyll Corfforaethol 2021/22. (Jeff Fish / Jonathon Rogers)**

Cyflwynodd Jeff Fish, Ymchwilydd y Tîm Twyll Corfforaethol adroddiad a oedd yn darparu diweddariad canol blwyddyn ar y gwaith a wnaed gan y Swyddogaeth Twyll Corfforaethol yn 2021/22.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Maint gymharol fach y tîm gydag adnoddau cyfyngedig.
- Ei allu i wneud gwaith rhagweithiol.
- Sicrwydd bod twyll wedi digwydd.

**Penderfynwyd** nodi'r cynnydd canol blwyddyn a wnaed yn erbyn Swyddogaeth Twyll y Cynllun Gwrth-dwyll Corfforaethol a nodir yn Atodiad A yr adroddiad a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

**50 Trosolwg Risg Corfforaethol 2021/22 - Chwarter 2. (Er Gwybodaeth) (Richard Rowlands)**

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol, adroddiad gwybodaeth a oedd yn darparu trosolwg o statws Risgiau Corfforaethol yn y cyngor i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n unol â pholisi a fframwaith rheoli risgiau'r cyngor.

Roedd y canlynol yn crynhoi statws y risgiau a gofnodwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn Chwarter 2 2021/22:

- 6 statws risg coch yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar ddiwedd C2 2021/22:

    - Rhif Adnabod Risg 153. Diogelu.
    - Rhif Adnabod Risg 159. Rheolaeth Ariannol: Agweddau CATC ar Abertawe Gynaliadwy.
    - Rhif Adnabod Risg 222. Digidol, Data a Seiberddiogelwch.
    - Rhif Adnabod Risg 264. COVID-19.
    - Rhif Adnabod Risg 274. Gwasanaethau Cymdeithasol COVID-19.
    - Rhif Adnabod Risg 296. Cyflenwi deunyddiau adeiladu.

- Cofnodwyd bod yr holl risgiau wedi'u hadolygu o leiaf unwaith yn ystod Chwarter 2.
- Ni chafodd unrhyw risgiau corfforaethol eu dadactifadu.
- Uwch-gyfeiriwyd 1 risg i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Rhif Adnabod Risg 274. Gwasanaethau Cymdeithasol COVID-19.

**51 (Cyfarwyddiaeth): Yr Amgylchedd Rheolaeth Fewnol 2021/22. (Er Gwybodaeth) (Dave Howes)**

Cyflwynodd David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu amgylchedd rheoli'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys rheoli risgiau, gan sicrhau: bod swyddogaethau'n cael eu harfer yn effeithiol; defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, a; bod llywodraethu effeithiol i sicrhau'r trefniadau hyn.

Darparodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddadansoddiad eang o'r Portffolio o dan y meysydd canlynol:

- Rheoli Risgiau a Pharhad Busnes.
- Rheoli Perfformiad a Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- Cynllunio a Gwneud Penderfyniadau.
- Rheoli Cyllidebau ac Adnoddau.
- Twyll ac Amhriodoldeb Ariannol.
- Cydymffurfio â Pholisïau, Rheolau a Gofynion Rheoliadol.
- Sicrwydd Rhaglenni a Phrosiectau.
- Dulliau rheoli mewnol.
- Diogelu Data.
- Llywodraethu Partneriaeth/Cydweithio.

Dywedodd fod 2021 wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd COVID a'i effaith ar y gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth eisoes yn cael ei reoleiddio'n fanwl ac roedd risg yn ffactor allweddol yn y rheoliad hwnnw.

Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau i'r Swyddog a ymatebodd yn briodol. Roedd y trafodaethau'n cynnwys System Feddalwedd Genedlaethol Cymru a'i phroblemau sefydlogrwydd cychwynnol.

Diolchodd y Cadeirydd i David Howes am ddarparu adolygiad manwl.

**52 Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2020-21. (Er gwybodaeth) (Simon Jones)**

Cyflwynodd Simon Jones, Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu'r adroddiad blynyddol diweddaraf ar drefniadau diogelu corfforaethol y cyngor, sy'n adolygu rhaglen waith y Grŵp Diogelu Corfforaethol yn ystod 2020/21.

Mae'r adroddiad yn gweithredu fel adolygiad cynhwysfawr o weithredu Polisi Diogelu Corfforaethol y cyngor, sy'n hyrwyddo ymagwedd "mae diogelu yn fusnes i bawb". Mae diogelu pobl rhag niwed yn flaenoriaeth gorfforaethol yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Abertawe".

Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau i'r Swyddog a ymatebodd yn briodol. Roedd y trafodaethau'n cynnwys:

- Cydymffurfio â Hyfforddiant Diogelu.
- Roedd angen atgoffa'r holl gynghorwyr a'r Swyddogion o'u cyfrifoldebau diogelu corfforaethol.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod cydymffurfiaeth cynghorwyr o ran Hyfforddiant Diogelu yn 100%. Dywedodd hefyd fod y cyngor, yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd 2021, wedi penderfynu sicrhau bod Diogelu yn parhau yn y gofynion hyfforddi gorfodol ar gyfer cynghorwyr ar gyfer y tymor sydd ar ddod 2022-2027.

Gofynnodd y Cadeirydd i hyfforddiant Cydymffurfio â Diogelu gael ei amlygu yn y Gofrestr Risgiau.

**53 Y diweddaraf am Abertawe'n Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd. (Er Gwybodaeth) (Adam Hill)**

Cyflwynodd Adam Hill, Dirprwy Brif Weithredwr, a Marlyn Dickson, Rheolwr y Rhaglen Newid Strategol, adroddiad gwybodaeth ar y cyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Adfer a Thrawsnewid – Abertawe'n Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth y Gweithlu ac amserlen ar gyfer pryd y bydd ar waith. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr gan ddweud ei bod yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ac y byddai'n sicrhau ei bod yn cael ei hychwanegu fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Chwefror 2022.

**54 Effaith Deddf Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol 2020. (Llafar) (Ben Smith)**

Gohiriwyd yr eitem hon i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2022.

**55 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)**

Adroddwyd am Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth.

**56 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth) (Jeremy Parkhouse)**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r cynllun gwaith gael ei ddiweddaru gyda'r canlynol:

- Ymgorffori meysydd gwaith newydd y Pwyllgor yn y cynllun gwaith.
- Y Dirprwy Brif Weithredwr i ddarparu adroddiad diweddaru i gyfarfod yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r gofynion hyfforddi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.03 pm

**Cadeirydd**